# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 30ain Ebrill 2015.**

**Presennol. Mri:-** Dafydd Evans, A. O. Griffiths, D.G.Jones, H.D.Jones, S.G.Owen, W.N.Owen, G.Wigley, Mrs Ann Williams, Mrs Gwenfair Davies a'r Cyng. G.P.Fychan.

**Ymddiheuriadau.** Mri:- Paul Hughes, J.P.Jones, D. Lewis a H.M.Williams.

**93. Cofnodion cyfarfod 26ain Mawrth 2015.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**94. Materion yn codi o'r cofnodion.**
Trafodwyd ymhellach y posibilrwydd i'r Cyngor Cymuned fabwysiadu'r cyfleusterau cyhoeddus yng Nghemaes. Gan fod angen gwario arnynt ac nad oes cyfleusterau ar gyfer yr anabl, cytunwyd, cyn cysylltu efo'r Cyngor Sir, fod dirprwyaeth o'r Cyngor yn cyfarfod efo Rheolwr Gwesty'r Penrhos i gynnig opsiynau iddi a gweld os oes ganddi ddiddordeb i'r cyhoedd ddefnyddio cyfleusterau'r Penrhos. Y ddirprwyaeth fydd Gareth, Aled, Dafydd a Gwilym.

Mis Chwefror

78.4.42.3. Llythyr oddi wrth Richard Baker yn egluro'r cynlluniau sydd gan y Cynulliad ar gyfer y safle lle safai Mount Pleasant yng Ngheinws. Lawnt werdd naturiol gydag ambell goeden i atal ceir rhag mynd i'r safle.

Mis Mawrth.

42.7 Er gwybodaeth, derbyniwyd copi o adroddiad archwiliwr y coed oddi wrth Ms Prue Probert, Plas Wrin.

84.1 Darllenwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Susan Hughes, Mathafarn am y blodau dderbyniodd fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth yn gofalu am 'Pryd ar Glyd' yn yr ardal am lawer blwyddyn.

**95. Cyflwyno a derbyn y Cyfrifon am y flwyddyn yn diwedd ar 31ain Mawrth 2015.**
Roedd mwyafrif o'r aelodau wedi derbyn y fantolen trwy e-bost a dosbarthwyd copi i'r rhai oedd yn bresennol. Wedi peth trafodaeth, derbyniwyd y fantolen fel yn gywir a chymeradwywyd iddi gael ei chyflwyno i'r archwilwyr. Arwyddwyd y dogfennau gan y cadeirydd a'r clerc.

**96. Cynllunio.**
P2015 0099. Newid i gais Pen y Bont, Glantwymyn sydd eisoes wedi ei gefnogi gan y Cyngor.
P2015 0299. Mae gorchymyn wedi ei wneud i'r perchennog symud y sied ger capel Seion, Llanwrin.

**97. Eitemau i'w talu.**
97.1 I gyflawni addewid y Cyngor, cytunwyd talu £500 tuag at Eisteddfod Maldwyn 2015. Dros dair blynedd mae cyfraniad o £1500 wedi ei wneud.
97.2 Cyn y gall GloverSure gynnwys y Cyngor ar y we rhaid prynnu *domain.* Fe gostia hyn £20 + TAW bob dwy flynedd. Cytunwyd i dalu'r £24. Bydd gwefan y Cyngor i'w gweld o dan:- www.glantwymyn-council.co.uk yn fuan.
97.3 Cost y blodau i Susan Hughes. £19.99.

**98. Cais am arian.**
98.1; 98.2; 98.3; 98.4. Cyflwynwyd ceisiadau am arian gan y clerc ar ran y pedair mynwent o fewn y gymuned sydd heb fod dan ofalaeth y Cyngor. Dwy yng Nghemaes, un yn Nhal-y-wern ac un yng Nghwmlline. Cytunwyd i gyfrannu £200 yr un tuag at y gost o'u cynnal.
98.5 Cytunwyd i ail ymaelodi efo SARPA. £8.
98.6 Trosglwyddwyd dau gais i gronfa'r Melinau Gwynt.

**99. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
99.1 Derbyniwyd adroddiad gan Gwilym Fychan fod sefyllfa annerbyniol wedi codi ger Brythonfa, Cemaes lle mae un o'r tenantiaid yn parcio ar lwybr cyhoeddus a bod baw cwn yn broblem o gwmpas y tai. Mae'r heddlu yn ymwybodol o'r sefyllfa.

**100. Gohebiaeth.**
100.1 Cwmni yswiriant AON yn anfon am fanylion y Cyngor er mwyn cynnig pris.
100.2 Derbyniwyd Rhifyn 26 o'r Llais, cylchgrawn Un Llais Cymru.
100.3 Derbyniwyd Rhifyn Ebrill 2015 o gylchgrawn SARPA.
100.4 Bydd Tai Canolbarth Cymru yn cyhoeddi papur ymgynghori yn fuan am ei syniad newydd a chyffrous a allai gynnig cyfle i denantiaid brynu cyfran o'u cartref presennol.
100.5 Bydd Ffordd Llanwrin ar gau am ddyddiau yn cychwyn 22ain Mehefin i wneud gwaith draenio.
100.6 Ni fydd newid yn nhrefniadau casglu sbwriel dros gyfnod Gwyliau'r Banc ym mis Mai.
100.7 Cyfarwyddyd Diwygiedig ar y Côd Ymddygiad. Mae'n bosib lawr lwytho'r fersiwn ddiweddaraf trwy gysylltu efo www.ombudsman-wales.org.uk
100.8 Cymhorthydd Cymunedol yr Heddlu ym Machynlleth Tess Williams eisiau dod i gyfarfod o'r Cyngor i egluro ei gwaith yn y gymuned. Estyn gwahoddiad i gyfarfod mis Mehefin.

**101. Unrhyw fater arall.**
101.1 Mae cymorth ariannol ar gael gan gymdeithas sy'n codi arian ym Machynlleth tuag at archebu *defibrilator*. Roedd yr aelodau'n derbyn pwysigrwydd cael peiriant i hob ardal ac am holi mwy cyn dod i benderfyniad.
101.2 Roedd yr heddlu wedi cysylltu efo'r clerc ynglŷn â Gŵyl sydd i'w chynnal ar dir Gwastadcoed, Glantwymyn yng Ngorffennaf. Nid oedd yr aelodau wedi clywed am hyn.
101.3 Angen arwyddion ar bob mynedfa i ffordd y Waun, Cemaes yn rhybuddio gyrwyr loriau fod y ffordd yn anaddas, ac iddynt anwybyddu'r *Sat Nav*.
101.4 B4404. Tyllau yn y ffordd rhwng Hendreseifion a Glanfechan.

Nid oedd mater arall

## Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cyngor Glantwymyn am 7.30 o'r gloch ar 28ain Mai 2015.

Bydd croeso i aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol a datgan barn.

A suggestion from Powys County Council for Glantwymyn Community Council to adopt the public conveniences at Cemaes was further discussed and, since their condition is sub standard and without facilities for the disabled, arrangements were to be made for a deputation from the council to approach the Penrhos Arms Management in order to seek a way forward.
In keeping with community discussions, the landscaping proposals for the site where Mount Pleasant stood at Ceinws aims to offer, once developed, a low maintenance natural green area that will provide colour during the Spring and Summer months, with Cherry Blossom trees planted logistically to prevent unauthorized vehicles entering the site.
The clerk presented the Council's Annual Financial Report for the year ending 31st March 2015. These were adopted by the councilors and are ready to be presented to the auditors.
The final installment of £500 (totaling £1500) was donated to the 2015 National Eisteddfod to be held at Meifod in August. £200 each was donated to the four cemeteries within the community that the Council is not responsible for. From the Cemaes Windmill Trust Fund £200 was donated to Cylch Feithrin, Glantwymyn and a further £1000 towards installing a website for Glantwymyn School.
An application has been made for signs to be erected on all roads leading to the Waun, Cemaes advising drivers that the road is unsuitable for heavy goods vehicles.
The AGM of Glantwymyn Council and the Cemaes Windmill Trust Fund will be held on 26th May at the Community Centre. Meeting will commence at 7.30pm. Members of the public are invited to voice their opinions.